

Cynllun Strategol

2016–2020

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Dysgu
Learn

Cynnwys

3

4 Rhagair y Prif Weithredwr

5-6 Gweledigaeth

7-21 Amcanion Strategol:

Amcan 1

Amcan 2

Amcan 3

Amcan 4

Amcan 5

22-36 Atodiadau:

Hanes a Chyd-destun

Llywodraethiant

Strwythur Staffio

Rhagair y Prif Weithredwr

Rhoi dysgwyr yn gyntaf yw nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, corff a grëwyd i roi arweiniad strategol i'r maes dysgu Cymraeg i Oedolion. Rydym yn awyddus i weithio fel un tîm cenedlaethol sy'n rhoi'r gwasanaeth gorau i ddysgwyr a siaradwyr newydd y Gymraeg.

4

Dyma'r tro cyntaf i gorff cynllunio cenedlaethol gydlynw'r ddarpariaeth. Bydd y Ganolfan yn llais cadarn ar gyfer y maes. Mae'r nod yn glir - denu dysgwyr newydd a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Sefydlwyd y Ganolfan mewn ymateb i 'Codi Golygon', adolygiad y Llywodraeth o'r maes dysgu Cymraeg, a byddwn yn cydlynw'r ddarpariaeth i'r dyfodol drwy gydweithio'n agos gyda darparwyr, tiwtoriaid a phartneriaid ymroddedig.

Bydd y Ganolfan yn cyflwyno cwricwlwm ac adnoddau cyfoes a chyffrous a bydd yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer yr holl wybodaeth am ddysgu'r Gymraeg. Byddwn yn comisiynu ymchwil a byddwn am sicrhau dulliau dysgu blaengar.

Mae pawb sy'n byw yng Nghymru yn gwybod bod y Gymraeg o'u cwmpas ac mae'r iaith yn perthyn i ni gyd. Mae oddeutu 11% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith yn rhugl, gyda 12% arall yn llai rhugl. Mae pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu o leiaf rywffaint o Gymraeg ac mae miloedd o bobl yn cofrestru bob blwyddyn ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Dyma gyfle gwych i ddod â phawb ynghyd i siarad yr iaith a'i defnyddio.

Pwysleisir mai sefydliad newydd yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae'r cynllun strategol hwn yn cael ei lunio a'i gytuno â'r maes a'r Llywodraeth ar adeg pan na fydd ei threfniadaeth staffio lawn yn derfynol.

Nodir felly bod y ddogfen hon yn un esblygol ac, fel man cychwyn, yn cynnwys materion gweithredu ar gyfer 2016-17 i'w datblygu'n llawnach ar ffurf Cynllun Gweithredu. Mae'r ddogfen yn gosod cyfeiriad i waith y Ganolfan am y cyfnod 2016-2020.

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut y byddwn yn rhoi'n gwaith ar waith, ac edrychwn ymlaen at gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion ei Strategaeth Iaith newydd pan gyhoeddir hi. Mae'n gyfnod o newid mawr a phosibiliadau cyffrous. Mae'n fraint cael arwain y sefydliad ac edrychaf ymlaen at adrodd ar ein cynnydd dros y blynyddoedd nesaf.

Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Gorffennaf 2016

Gweledigaeth

Y deilliannau craidd a osodwyd i'r Ganolfan gan Lywodraeth Cymru yw:

Bod yn **sefydliad gweledol** sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r maes Cymraeg i Oedolion.

5

Cynnig **arweiniad** i ddarparwyr y Ganolfan.

Codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg.

Datblygu **cwricwlwm cenedlaethol** difyr, cyfoes, priodol a safonol a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i amrywiaeth o ddysgwyr ar bob lefel.

Dyheadau'r Ganolfan yw:

Cynyddu'r niferoedd sy'n **gwybod** am wersi Cymraeg.

Cynyddu'r niferoedd sy'n **dysgu'r** Gymraeg.

Cynyddu'r niferoedd sy'n cyrraedd **rhuglder**.

Cynyddu'r niferoedd sy'n **defnyddio'r** Gymraeg.

DIBEN

Mae'r Ganolfan yn rhoi arweiniad strategol i'r maes dysgu Cymraeg i Oedolion.

GWERTHOEDD

Bydd y Ganolfan yn sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael croeso, cefnogaeth ac anogaeth ar eu taith i ddysgu'r iaith. Bydd y Ganolfan yn gwneud ei gwaith yn broffesiynol, yn flaengar a chydag ymrwymiad.

GWELEDIGAETH

Bydd y Ganolfan yn arwain gwasanaeth dysgu'r Gymraeg fydd yn cyfrannu at ffyniant yr iaith.

STRATEGAETH

Gosodir pum amcan strategol er mwyn cyflawni'r gwaith. Bydd y Ganolfan yn cydweithio'n agos gyda'i darparwyr fydd yn cynnig rhaglen o wersi a gweithgareddau i ddysgwyr a gyda thiwtoriaid ymroddedig i feithrin ymdeimlad o un tîm cenedlaethol yn gweithio tuag at yr un nod.

Amcan Strategol 1

Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf

7

Er mwyn ei gwneud yn haws i ddysgwyr wneud cynnydd, rhaid cynllunio rhaglenni sy'n cynnwys amrywiaeth briodol o gyrsiau hygyrch i bawb, o ran eu hyd, eu cynnwys a'u dull o gyflwyno'r iaith. Mae angen i'r dosbarthiadau ymateb i'r galw o ran y lleoliadau, adeg y dydd a'r flwyddyn, a hyd y cyrsiau.

Bydd angen cynllunio ar lefel leol a gwella'r cynnig ar-lein. Bydd y Ganolfan yn mynd ati ar y cyd â'r darparwyr, y tiwtoriaid a'r arbenigwyr iaith i sicrhau bod y profiad a gynigir i'r dysgwyr yn datblygu. Gwneir hyn yn benodol trwy:

- ▲ lunio cwricwlwm newydd;
- ▲ llunio rhaglen o gyrsiau blaengar sy'n cynyddu oriau cyswllt dysgwyr wrth ddysgu;
- ▲ llunio adnoddau dysgu newydd gyda'r adnoddau rhyngweithiol yn rhan greiddiol;
- ▲ llunio adnoddau i gefnogi dysgu y tu allan i'r dosbarth; a
- ▲ datblygu cyfundrefn dysgu, asesu ac annog ar-lein arloesol.

Bydd y Ganolfan yn **llunio cwricwlwm newydd** safonol a fydd yn sail i adnoddau newydd a chyffrous ar gyfer dysgu'r iaith. Sicheir bod y cwricwlwm yn feincnod i diwtoriaid newydd a phrofiadol fel ei gilydd ac yn cynnig canllaw safonol. Bydd y cwricwlwm yn disgrifio cynnwys iaith angenrheidiol yr ystod o lefelau cyrhaeddiad ac yn diffinio galluoedd yn y Gymraeg yn yr un modd â Fframwaith Cyffredin Ewrop. Bydd yn cydblethu â datblygiadau cenedlaethol ar ddatblygu continwwm iaith ac yn sicrhau perthnasedd i brofiadau unigolion o bob oed sy'n dysgu'r Gymraeg.

Mae'r sefyllfa bresennol yn caniatáu i'r mwyafrif ddysgu mewn dosbarthiadau dwy awr yn unig. Er mwyn cyflymu'r broses ddysgu, bydd y Ganolfan yn anelu at **raglen o gyrsiau sy'n cynyddu oriau cyswllt dysgwyr wrth ddysgu**. Disgwylir i'r mwyafrif neilltuo dwy awr yn ychwanegol yr wythnos i gefnogi eu dysgu yn y dosbarth trwy ddilyn

adnoddau newydd ar-lein. Bydd angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod modd i unigolion heb fynediad i dechnoleg barhau i allu dysgu'r Gymraeg. Yn ogystal â chynyddu'r nifer o gyrsiau pedair awr yr wythnos, bwriedir cydweithio â'r darparwyr i gynyddu nifer y cyrsiau dwys iawn, lle bydd y dysgwyr yn symud drwy'r lefelau yn gyflymach. Gall hyn olygu dysgu mewn blociau estynedig ac annog dysgwyr i fynychu digwyddiadau, sesiynau anffurfiol a thrwy gyswllt personol â dysgwyr eraill a siaradwyr. Caiff dwy fersiwn o'r Cwrs Cenedlaethol eu datblygu: De a Gogledd.

Bydd y Ganolfan yn **comisiynu ac yn llunio adnoddau dysgu newydd gyda'r adnoddau rhyngweithiol yn rhan greiddiol** fydd yn cefnogi, yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar gynnwys y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod pob cyfle posibl gan ddysgwyr i ddatblygu'n siaradwyr. Gwneir hyn gyda'r nod o godi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion. Wrth ddatblygu'r adnoddau rhoddir sylw i ymchwil perthnasol o fewn Cymru a thu hwnt, a byddwn yn barod i arbrofi gyda thechnegau gwahanol.

Trwy wneud hyn bydd y Ganolfan yn ystyried gwaith ymchwil perthnasol gan gynnwys gwaith ymchwil cynhwysfawr Prifysgol Caerdydd ar dulliau dysgu, methodoleg ac adnoddau. Ystyrir hefyd y rhwystrau i ddysgu gan gynnwys materion ymarferol. Pwysleisir rôl anogol tiwtoriaid a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg fel sgil i ddysgwyr.

Er mwyn i ddysgwyr allu mesur eu cynnydd yn gyson ac yn wrthrychol ar hyd eu taith iaith, datblygir **cyfundrefn dysgu, asesu ac annog ar-lein arloesol** a fydd yn mabwysiadu egwyddor asesu ar gyfer dysgu. Cynllun i ddysgwyr fesur eu cynnydd eu hunain fydd hwn gan roi anghenion y dysgwr yng nghanol y broses asesu. Fe fydd y gyfundrefn yn rhoi cyfle arbennig i'r darparwyr a'r Ganolfan fesur cynnydd dysgwyr ar draws Cymru. Bydd modd i'r Ganolfan a'i darparwyr fireinio adnoddau dysgu a dulliau dysgu wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

Materion Gweithredu

2016 - 2017

9

- ▲ Adolygu'r cwricwlwm presennol ac ymgynghori arno erbyn Hydref 2016; sicrhau bod cwricwlwm safonol yn ei le (sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cyffredin Ewrop) a fydd yn caniatáu i'r darparwyr lunio rhaglenni dysgu safonol trwy gyfrwng profiadau dysgu traddodiadol a mwy arloesol.
- ▲ Comisiynu a llunio adnoddau i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys elfen gref rymgweithiol gydag adnoddau ar gyfer cyrsiau Lefel Mynediad ac Uwch 1 fel y cam cyntaf.
- ▲ Datblygu rhaglen arloesol ar-lein i'r dysgwyr adnabod eu cynnydd wrth iddynt ddysgu er mwyn eu hymbweru i ddilyn y cwricwlwm ac arwain at ruglder.
- ▲ Cynnull a chynnal Grŵp Cwricwlwm ac Adnoddau a grwpiau eraill perthnasol er mwyn ystyried ymchwil, methodoleg, ymgynghori a datblygu polisiau.

2017 - 2020

- ▲ Cynyddu nifer y cyrsiau dwys (o leiaf 4 awr yr wythnos) hyfyw a gynigir ar draws Cymru.
 - ▲ Parhau i ddatblygu adnoddau i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd gan weithio ar gyrsiau Mynediad 2, Canolradd, Uwch 2 ac Uwch 3.
 - ▲ Datblygu rhaglen o hyfforddiant lleol a chenedlaethol i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm ac adnoddau newydd.
 - ▲ Gwerthuso'r datblygiadau.
-

Amcan Strategol 2

Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus

10

Er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio eu Cymraeg, mae angen datblygu cynlluniau arloesol sy'n rhoi mwy o gyfleoedd naturiol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg. Rhoddir ystyriaeth benodol i anghenion siaradwyr llai hyderus, a chyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg nad ydynt bellach, am ba bynnag reswm, yn defnyddio eu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i:

- ▲ ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- ▲ defnyddio'r Gymraeg gyda'r teulu;
- ▲ defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn y gymuned a hyrwyddo ymdoddi i gymunedau;
- ▲ datblygu cynlluniau i ddod â siaradwyr a dysgwyr at ei gilydd; a
- ▲ mwynhau rhaglenni radio a theledu a'r cyfryngau newydd yn Gymraeg.

Byddwn yn llunio Strategaeth **Cymraeg yn y Gweithle** er mwyn cefnogi cyflogwyr i lunio rhaglenni dysgu Cymraeg ystyrion yn y gweithle. Dyma un o flaenoriaethau cyntaf y Ganolfan. Bydd y Ganolfan yn datblygu'r Strategaeth drwy greu partneriaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg, y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff perthnasol eraill. Bwriedir ymgynghori â chyrff cenedlaethol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cwmnïau yn y sector preifat a'r trydydd sector gan fynd i'r afael â'r her o roi hyder i siaradwyr goddefol yn ogystal â dysgu dysgwyr sydd ar lefydd gwahanol ar hyd y continwrm iaith.

Bydd y Strategaeth yn cynnwys cyngor i gyflogwyr am y dulliau gorau o sicrhau cynnydd yn sgiliau Cymraeg eu gweithwyr gan gynnwys eu rhyddhau o'u gwaith. Y nod fydd datblygu cyfundrefn gydnabyddedig lle bydd modd i unigolion ddewis dysgu neu wella'u Cymraeg yn y gweithle gyda rhaglen o gyrsiau dwys neu hyblyg wedi'u teilwra gan fod o fantais i'r unigolyn ac i'r cyflogwr. Bydd y Ganolfan yn ystyried y dulliau cyllido ac yn cyflwyno argymhellion.

Bydd y Ganolfan hefyd yn blaenoriaethu'r ddarpariaeth sydd ar gael i unigolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg am resymau teuluol. Caiff rhaglen newydd ei datblygu sy'n cwmpasu **Cymraeg i'r Teulu** er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i rieni ddysgu er mwyn siarad Cymraeg â'u plant. Rhoddir ystyriaeth i'r cwricwlwm addysg newydd ac i anghenion y gweithlu addysg ac fe sicrheir bod ystod o gyrsiau addas, gyda chwricwlwm addas, ar gael ar adegau cyfleus. Bydd y Ganolfan yn awyddus i weithredu ar lefel strategol gydag Awdurdodau Addysg Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth hon ac yn dymuno gweithio gyda chyrff allweddol yn y trydydd sector.

Er mwyn gwella rhuglder mae angen i ddysgwyr gael eu cyflwyno i brofiadau **anffurfiol yn y Gymraeg** yn y gymuned. Anogir darparwyr i wneud defnydd creadigol o'r Canolfannau Iaith sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru fel manau lle bydd hi'n haws i ddysgwyr siarad y Gymraeg. Mae'r Ganolfan hefyd yn bwriadu cydweithio â'r darparwyr i adolygu'r ddarpariaeth anffurfiol bresennol. Y nod fydd creu rhwydweithiau a chyfleoedd newydd sy'n cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Bydd y Ganolfan am annog dysgwyr i gymryd rhan mewn gwyliau a digwyddiadau Cymraeg lleol a chenedlaethol. Bydd y Ganolfan yn awyddus i hyrwyddo ymdoddi i gymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf ac annog cyfleoedd gwirioneddol i ddysgwyr ddefnyddio'u hiaith yn y gymuned, gan greu rhwydweithiau rhyngpersonol a chymdeithasol newydd lle nad ydynt yn bodoli yn naturiol. Mae cael rhaglen gyflawn o weithgareddau a digwyddiadau i ddysgwyr yn lleol yn rhan annatod o unrhyw raglen ddysgu lwyddiannus.

Er mwyn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad y Gymraeg yn naturiol, bydd y Ganolfan yn datblygu cynlluniau pontio i ddod â **siaradwyr Cymraeg a dysgwyr** at ei gilydd mewn partneriaeth â mudiadau ac asiantaethau Cymraeg, er enghraifft Merched y Wawr, Clybiau Gwawr, Mentrau Iaith Cymru, eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ystyrir cynlluniau diddorol ar-lein i gyfeirio dysgwyr at siaradwyr a digwyddiadau. Cred y Ganolfan y dylai Cymraeg eglur, syml gael ei defnyddio yn fwy aml gan unigolion a sefydliadau er mwyn i ddysgwyr ddod yn siaradwyr. Mae'r Ganolfan hefyd yn ymwybodol bod angen rhoi cyngor i siaradwyr Cymraeg ar y dulliau gorau o siarad gyda dysgwyr.

Bwriadwn weithio gyda darparwyr a darlledwyr i sicrhau bod **dysgwyr yn mwynhau rhaglenni radio a theledu a'r cyfryngau newydd yn Gymraeg** drwy rannu gwybodaeth yn uniongyrchol am y ddarpariaeth a defnyddio cynnwys mewn gwersi.

Materion Gweithredu

2016 - 2017

- ▲ Ymgynghori gyda chyflogwyr wrth ddatblygu Strategaeth Cymraeg yn y Gweithle.
- ▲ Cyhoeddi Strategaeth Cymraeg yn y Gweithle.
- ▲ Cynnal cynllun peilot gyda chyflogwyr arwyddocaol.
- ▲ Datblygu partneriaethau gweithredol gyda chyrrff mewn amrywiol sectorau.
- ▲ Trafod darpariaethau anffurfiol a lled-ffurfiol gyda darparwyr a phartneriaid.

2017 - 2020

- ▲ Creu arweiniad cydnabyddedig ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle.
- ▲ Yn sgil cynnal adolygiad, cyhoeddi Cynllun Cymraeg i'r Teulu newydd.
- ▲ Hyrwyddo Dysgu Anffurfiol mewn trafodaeth â'r darparwyr a mapio'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr.
- ▲ Creu partneriaethau gyda S4C, Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru er mwyn sicrhau arlwy i ddysgwyr.
- ▲ Datblygu rhaglen i ddod â dysgwyr a siaradwyr at ei gilydd a rhoi cyngor i sefydliadau a siaradwyr ar sut i gyfathrebu gyda dysgwyr.



Amcan Strategol 3

Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth

Cynhaliwyd proses dryloyw i resymoli darparwyr a phennwyd darparwyr i weithredu ar ran y Ganolfan o 1 Awst 2016.

Bydd dangosyddion perfformiad ac atebolrwydd yn cael eu cytuno â'r darparwyr er mwyn cyfeirio newid yn strategol ac yn gydlynus a chyflwyno cysondeb i'r gwasanaethau ar draws Cymru.

Trwy gydweithio agos â'r darparwyr, anelir at:

- ▲ sefydlu Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol er mwyn anelu at ragoriaeth;
- ▲ cynllunio'n strategol a phwrpasol drwy ddatblygu Cynllun Rheoli Data;
- ▲ datblygu gweithlu proffesiynol drwy lunio Cynllun Datblygu'r Gweithlu; a
- ▲ cysoni ffactorau amrywiol, er enghraifft ffioedd a thâl tiwtoriaid, er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol.

Blaenoriaeth y Ganolfan yw cael darpariaeth hygyrch, gyson ei hansawdd ymhob rhan o Gymru gan sicrhau ystod o gyfleoedd yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Rhoddir gwerth i gyrsiau sy'n rhoi cyfle estynedig i ddefnyddio'r Gymraeg gan gynnwys cyrsiau preswyl. Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn safonol - rydym eisiau annog unigolion i gyrraedd eu nodau personol a symud o un lefel i'r llall tuag at ruglder, gan fanteisio ar bob cyfle i roi eu sgiliau newydd ar waith. Er mwyn sefydlu a chynnal strwythurau sicrhau ansawdd, bydd y Ganolfan yn llunio **Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol** i gysoni'r gwasanaeth ac adnabod rhagoriaeth. Bydd Estyn yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r Fframwaith Ansawdd er mwyn sicrhau cysondeb gofynion.

Mae'r dasg o ddod o hyd i ddata hylaw, ystyrlon a dibynadwy wedi'i llesteirio gan y ffaith bod data'r maes wedi'i gyflwyno ers sawl blwyddyn trwy wahanol systemau i'r Llywodraeth. Mae sefydlu **Cynllun Rheoli Data** er mwyn monitro cynnydd ac adnabod tueddiadau arwyddocaol yn flaenoriaeth. Sicrheir bod yna system data cynhwysfawr yn ei le fydd yn dilyn dysgwyr drwy eu taith dysgu Cymraeg. Bydd y system yn caniatáu adnabod, dadansoddi ac adrodd ar batrymau er mwyn cynllunio'n bwrpasol a strategol at y dyfodol. Bydd safle rhyngweithiol newydd y Ganolfan yn gymorth i ddarparwyr

gan hwyluso cofrestru, mewnbynnu data, cyfathrebu gyda thiwtoriaid, rhannu adnoddau ac arfer dda. Byddwn yn gallu mesur effaith y buddsoddiad ar ddysgwyr ac ar y Gymraeg a dangos faint o'r boblogaeth ddi-Gymraeg sy'n manteisio ar wersi Cymraeg. Bydd y Ganolfan yn gallu gwneud dadansoddiad manwl o'r dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol - sut maen nhw'n symud o un lefel i'r llall, beth yw eu cefndir a'u cymhelliant, beth maent wedi ei gyflawni a pha ddefnydd a wneir o'r Gymraeg sydd ganddynt.

Tiwtoriaid yw conglfaen gwasanaeth y Ganolfan i ddysgwyr. Mae angen sefydlu rôl tiwtor fel opsiwn gyrfa cydnabyddedig sy'n atyniadol i unigolion proffesiynol o bob oed. Bydd y Ganolfan yn awyddus i gyfathrebu'n gyson â thiwtoriaid a buddsoddi mewn adnoddau a hyfforddiant iddynt. Dyma'r allwedd i ddysgwyr dderbyn y cymorth gorau ac i ddod yn rhugl. Er mwyn cefnogi tiwtoriaid a darpar diwtoriaid, llunnir **Cynllun Datblygu'r Gweithlu**. Bydd y Cynllun yn gosod strwythur ar gyfer recriwtio a chysoni telerau ac amodau gwaith tiwtoriaid ac yn gosod fframwaith cymwysterau a hyfforddiant i gynllunio datblygiad proffesiynol tiwtoriaid a fydd yn edrych o'r newydd ar sut y diffinnir cymhwysedd. Edrychir yn fanwl ar gynnwys y cymhwyster cenedlaethol gan ystyried datblygu cymhwyster newydd i adlewyrchu'r cwricwlwm a'r adnoddau newydd. Bydd y Ganolfan hefyd yn ystyried dulliau eraill o gymhwyso er mwyn denu cymaint â phosibl o unigolion abl ac ymrwymedig i'r proffesiwn.

Materion Gweithredu

2016 - 2017

- ▲ Sefydlu trefn gyllido a chytuno ar ddangosyddion perfformiad ac atebolrwydd er mwyn gosod targedau, allbynnau a deilliannau cenedlaethol.
- ▲ Datblygu Cynllun Rheoli Data soffistigedig drwy safle ryngweithiol newydd er mwyn sicrhau bod y drefn o gasglu, cadw a dadansoddi'r data yn effeithiol ac effeithlon ac er mwyn darparu darlun cenedlaethol o'r maes.
- ▲ Cynnal ymchwil manwl i natur y gweithlu i ddadansoddi sefyllfa bresennol telerau ac amodau cyflogaeth tiwtoriaid, cymwysterau tiwtoriaid, y gymhareb o weithwyr rhan a llawn amser, a darganfod dulliau newydd o recriwtio tiwtoriaid.
- ▲ Cynnal ymchwil i gymwyseddau, cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu.
- ▲ Cynnal a chefnogi hyfforddiant i diwtoriaid y maes, gan gynnwys seminarau a chynadleddau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- ▲ Adnabod rhagoriaeth ac arferion da er mwyn gallu datblygu Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol.

2017 - 2020

- ▲ Adrodd ar berfformiad y maes yn erbyn dangosyddion a deilliannau allweddol fesul blwyddyn.
 - ▲ Cyflwyno a gweithredu Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol.
 - ▲ Ar sail yr ymchwil, llunio Cynllun Datblygu'r Gweithlu.
 - ▲ Adolygu'r Cymhwyster Cenedlaethol gan adlewyrchu canlyniadau'r ymchwil a gofynion y cwricwlwm newydd.
-



Amcan Strategol 4

Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg

18

Mae codi proffil y maes yn allweddol bwysig er mwyn sicrhau bod dysgu Cymraeg yn chwarae rhan amlwg wrth sicrhau ffyniant y Gymraeg. Gall cyfathrebu negeseuon positif am ddysgwyr a chyfleoedd dysgu arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dysgu a pharhau i ddysgu'r Gymraeg.

Mae cynyddu'r niferoedd sy'n dechrau a pharhau i ddysgu'r Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Ganolfan. Gwneir hyn drwy:

- ▲ ddatblygu cynllun marchnata a chyfathrebu er mwyn bod yn sefydliad gweledol;
- ▲ gwella cyfraddau dilyniant;
- ▲ datblygu safle rhyngweithiol pwerus; a
- ▲ creu partneriaethau grymus sy'n codi proffil y maes.

Datblygir **cynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr** mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r darparwyr er mwyn denu mwy i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i barhau gyda'u cyrsiau. Bydd brand clir yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Ganolfan a'i darparwyr. Bydd y Cynllun yn awgrymu dilyn themâu penodol fel fframwaith i'r gweithgareddau marchnata ac yn cynnig rhaglen o ymgyrchoedd gan gynnwys recriwtio, dysgu anffurfiol, a dilyniant. Cynhelir ymchwil safonol i adnabod y cynulleidfaoedd posibl ac er mwyn llunio ymgyrchoedd pwrpasol i'w denu i ddysgu.

Bydd y cynllun marchnata a chyfathrebu yn atgyfnerthu'r gwaith a wneir gyda darparwyr i ddatblygu rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau yn ymateb i anghenion lleol. Awn ati i adnabod grwpiau penodol o ddysgwyr a thargedir hwy yn y dull mwyaf priodol. Rhagwelir y bydd y grwpiau yn cynnwys rhieni, pobl sydd wedi dysgu a cholli'r iaith, pobl mewn gwaith a phobl anodd eu cyrraedd. Defnyddir y dulliau diweddaraf er mwyn marchnata.

Byddwn yn **gwella cyfraddau dilyniant** drwy ddeall yn well beth yw rhesymau dysgwyr dros fethu â pharhau'r daith at ruglder gyflawn. O ddeall y rhesymau datblygir is-ymgyrchoedd addas i ymateb i'r sefyllfa gan fesur yr effaith yn feintiol.

Datblygir **safle rhyngweithiol aml-blattform pwerus** a fydd yn ganolbwynt i waith marchnata a chyfathrebu'r maes. Y safle fydd y prif bwynt cyswllt ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr. Bydd y safle yn cynnwys llyfrgell ar-lein o adnoddau a gweithgareddau hawdd i bawb fynd atynt. Bydd y safle am y tro cyntaf yn rhoi'r un wybodaeth i holl ddysgwyr Cymru am y cyfleoedd i ddysgu ac yn cynnig profiadau arloesol rhyngweithiol. Gall hyn gynnwys cyfle i ymgysylltu â thiwtor rhithiol, siaradwyr Cymraeg, ac i rannu profiadau â dysgwyr eraill. Cyfeiriad y safle fydd dysgucymraeg.cymru neu learnwelsh.cymru.

Bydd angen hefyd i'r Ganolfan **greu partneriaethau grymus** gyda chyrff allweddol. Sicrheir bod yna gydweithio â phartneriaid allanol trwy sefydlu partneriaethau strategol a rhaglenni cydweithio amlwg sy'n arwain at gynnydd yn nifer y cyfleoedd i ddysgu a siarad Cymraeg. Bydd y Ganolfan yn cydweithio gyda llunwyr polisi, asiantaethau perthnasol ym mhob sector ac yn sefydlu partneriaethau rhyngwladol. Rhoddir sylw i ddatblygiadau polisi ym maes addysg ôl 16 gan ymateb yn briodol iddynt. Sefydlir partneriaethau newydd sy'n cynnig cyfle i'r sector gael ei gynrychioli'n genedlaethol am y tro cyntaf gyda'r nod o egluro cyfraniad cadarnhaol y maes i unigolion a chymdeithas.

Materion Gweithredu

2016 - 2017

- ▲ Datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu sy'n cynnwys creu brand adnabyddus cenedlaethol.
- ▲ Cynnal ymchwil i'r farchnad er mwyn adnabod cynulleidfaoedd dysgu newydd.
- ▲ Cynnal cyfres o ymgyrchoedd recriwtio yn dilyn themâu penodol ar sail ymchwil.
- ▲ Adeiladu safle rhyngweithiol grymus sy'n ateb gofynion dysgwyr a darpar ddysgwyr, darparwyr, a thiwtoriaid.
- ▲ Datblygu rhaglen o gynlluniau marchnata lleol sy'n hyrwyddo cysiau ac yn anelu at wella cyfraddau dilyniant.
- ▲ Sicrhau defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu a marchnata gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol, presenoldeb mewn digwyddiadau ac ymgyrchoedd cyfathrebu.

2017 - 2020

- ▲ Adolygu a gweithredu y cynllun marchnata a chyfathrebu.
 - ▲ Ymateb i'r ymchwil i'r farchnad drwy gynnal ymgyrchoedd sy'n targedu sectorau penodol.
 - ▲ Targedu ardaloedd penodol ar sail ymchwil i'r farchnad a'r tueddiadau sy'n ymddangos yn y data.
 - ▲ Adolygu partneriaethau strategol y Ganolfan.
-



Amcan Strategol 5

Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth

22

Mae'r Ganolfan yn parchu'r hyn a gyflawnwyd eisoes yn y maes. Am y tro cyntaf erioed, mae'r maes dysgu Cymraeg i Oedolion yn cael ei arwain yn ganolog gan gorff cynllunio cenedlaethol. Er mwyn gweithredu'n llwyddiannus, bydd y Ganolfan yn:

- ▲ creu llywodraethiant effeithiol;
- ▲ sicrhau'r defnydd priodol o arian cyhoeddus;
- ▲ ymateb i anghenion dysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr; ac yn
- ▲ gweithredu ar sail ymchwil.

Blaenoriaeth i unrhyw gorff newydd yw sicrhau bod ei **lywodraethiant** yn ei alluogi i weithredu'n effeithiol o ran ei systemau mewnol, i reoli risg yn gadarn a defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus. Er mwyn cyflawni hyn a diogelu buddiannau holl randdeiliaid y maes, sefydlwyd cwmni drwy warant gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr profiadol. Bydd y Ganolfan yn sicrhau prosesau a systemau tryloyw a chadarn er mwyn sicrhau'r **defnydd priodol o arian**. O bryd i'w gilydd bydd y Ganolfan yn datblygu canllawiau i sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws Cymru. Bydd y Ganolfan yn monitro effeithlonrwydd y buddsoddiad ariannol ac yn meithrin a chefnogi'r darparwyr i sicrhau bod y dysgwyr wrth galon pob buddsoddiad.

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan sy'n cynnwys aelodau gyda sgiliau a phrofiadau amrywiol a fydd yn cynnig cyngor arbenigol i'r Ganolfan.

Er mwyn cynnal gweithdrefnau o ansawdd uchel bydd cyfle rheolaidd i **ddysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr** ymwneud â'r Ganolfan. Cynhelir astudiaeth flynyddol fydd yn gwerthuso profiadau dysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr a bwriedir gweithredu ar y canlyniadau. Bydd yr astudiaeth o ymateb dysgwyr yn cael ei gwneud mewn ymgynghoriad â darparwyr a bydd yn cynnwys cwestiynau fydd o ddiddordeb cyffredin.

Mae angen cadw'r hyn sy'n gweithio'n dda a chyflwyno syniadau newydd. Er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn llwyddo, gwêl y Ganolfan rôl amlwg iddi wrth gomisiynu **ymchwil** fydd yn ymestyn gwybodaeth y maes. Wrth i'r Ganolfan ddatblygu ei Chynllun Rheoli Data, rhagwelir yr angen i ymchwilio ymhellach i rai meysydd er mwyn arwain at benderfyniadau polisi. Gallai'r ymchwil fod yn ymarferol ei natur gan fesur effaith neu gallai'r ymchwil ymwneud â ffactorau dwysach megis newid ymddygiad. Bydd y Ganolfan hefyd yn gwneud defnydd o ymchwil cynhwysfawr sydd eisoes wedi ei gyhoeddi.

Mae'r Ganolfan yn ymwybodol hefyd o'r angen i roi ystyriaeth fanwl i gymariaethau rhyngwladol ym maes dysgu iaith, gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. Bydd y Ganolfan yn meithrin cysylltiadau gyda sefydliadau mewn gwledydd sydd wedi gwneud camau breision o ran cyflwyno iaith i siaradwyr newydd.

Materion Gweithredu

2016 - 2017

- ▲ Sefydlu strwythur llywodraethiant cadarn, gweledol ac atebol sy'n arwain newid mewn modd cyfrifol.
- ▲ Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n adrodd ar wariant a chyrhaeddiad.
- ▲ Cyflwyno trefn safonol o gywain barn dysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr.
- ▲ Ystyried yr ymchwil presennol a mapio meysydd ymchwil pellach.
- ▲ Meithrin cysylltiadau rhyngwladol gyda'r nod o rannu arferion da.

2017 - 2020

- ▲ Sicrhau archwiliadau mewnol ac allanol ac ymateb yn briodol iddynt.
 - ▲ Comisiynu rhaglen gynyddol o waith ymchwil er mwyn adnabod anghenion y dysgwyr ac ymateb iddynt yn strwythuredig ar sail tystiolaeth gadarn.
 - ▲ Gweithredu cynlluniau sy'n gymharus â mentrau sydd wedi profi'n llwyddiannus mewn gwledydd eraill.
 - ▲ Gwerthuso cyflawniad y Ganolfan a'i darparwyr a mesur effaith.
-



Atodiadau

Atodiad 1	Hanes a chefnidir
Atodiad 2	Llywodraethiant
Atodiad 3	Strwythur Staffio

Atodiad 1

Hanes a Chefndir

Hanes a Chefndir

Dyma amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Strategol:

27

18 Mai	Ymgynghori gyda'r Bwrdd Ymgynghorol.
22 Mehefin	Cyflwyno i Bwyllgor Strategaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
1 i 6 Gorffennaf	Cyflwyno i Fwrdd Cwmni YGDCG.
8 Gorffennaf	Drafft i Lywodraeth Cymru.
8 Gorffennaf i 18 Gorffennaf	Ymgynghori gyda phartneriaid, tiwtoriaid, dysgwyr a darparwyr.
21 Gorffennaf	Cymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol.
22 Gorffennaf	Dogfen derfynol i'r Llywodraeth.

Y cyd-destun strategol

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn sgil argymhelliad yn adroddiad 'Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion', adolygiad o dan gadeiryddiaeth Dr Haydn E Edwards ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013.

Fe dderbyniodd y Llywodraeth y mwyafrif helaeth o argymhellion yr adroddiad, yr adolygiad llawn cyntaf o'r maes ers i chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion gael eu sefydlu yn 2006.

Nododd yr adroddiad yn benodol yr angen am gorff cynllunio i roi arweiniad strategol i ddarparwyr y maes ac i ymgymryd â dyletswyddau datblygol ar lefel genedlaethol.

Ym mis Mai 2016, dyfarnwyd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant y gwaith o sefydlu corff hyd braich a fyddai'n:

- ▲ sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Cymraeg i Oedolion.
- ▲ cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.
- ▲ codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- ▲ datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

Mae swyddogaethau'r Ganolfan yn cynnwys ariannu, cynllunio a monitro datblygiad pob agwedd ar y maes dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghymru hyd 2022.

Mae'r Ganolfan ers ei sefydlu wedi mynd drwy broses o leihau nifer y darparwyr, wedi sefydlu tîm o staff ac wedi gosod strwythurau llywodraethiant yn eu lle. Dechreuodd ar y gwaith o roi cynllun marchnata cenedlaethol yn ei le, ac mae wedi dechrau trafodaethau gyda darparwyr ar ddangosyddion perfformiad i'r dyfodol. Sicrhaodd nad oes mwy na 15% o'r grant cyllid rheolaidd a roddir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei frigidorri gan y sefydliadau sy'n derbyn y cymhorthdal. Yn y mwyafrif o'r achosion, mae'r swm yn llai er mwyn galluogi mwy o arian i gyrraedd y rheng flaen.

Bydd y Ganolfan yn derbyn £1,760,000 yn y flwyddyn academaidd 2016/17 tuag at gynnal ei strwythurau a buddsoddi mewn marchnata, cwricwlwm ac adnoddau ac yn derbyn £8,810,000 i'w ddsbarthu i ddarparwyr.

Gwybodaeth gyd-destunol

Er i boblogaeth Cymru gynyddu o 153,000 erbyn 2011 i 3.06 miliwn, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000. Bu hyn yn gwmp o 1.8% neu 20,000 yn y bobl dros dair oed a ddatganodd eu gallu i siarad Cymraeg.

Hyd nes sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am gydlynu'r maes Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol a'i ddatblygu'n strategol ar gyfer y chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion. Cafodd y rhain eu sefydlu yn 2006, er mwyn dwyn ynghyd yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth iaith Gymraeg gyda'r bwriad o godi safonau. Bu'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion isod yn gyfrifol am y cynllunio a'r ddarpariaeth o fewn eu rhanbarthau.

Gofynnwyd i bob canolfan yn y llythyrau grant gan Lywodraeth Cymru i ymateb i dargedau ar gyfer y meysydd canlynol o ran nifer y dysgwyr sy'n elwa ar y darpariaethau canlynol:

- ▲ cyrsiau dwys;
- ▲ cyrsiau Cymraeg i'r teulu;
- ▲ cyrsiau Cymraeg yn y gweithle;
- ▲ cyrsiau lefel mynediad;
- ▲ cyrsiau lefel sylfaen;
- ▲ cyrsiau lefel canolradd;
- ▲ cyrsiau lefel uwch cyrsiau hyfedredd.

Y dysgwyr

Yn 2013/14 roedd 15,910 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau gwahanol ar draws Cymru gan ddefnyddio'r boblogaeth gofrestru safonol. Dyma'r dosbarthiad yn ôl y canolfannau:

Canolfan	Nifer y dysgwyr
Prifysgol Aberystwyth	2,215
Prifysgol Bangor	5,405
Prifysgol Caerdydd	1,630
Coleg Gwent	2,105
Prifysgol Abertawe	3,165
Prifysgol De Cymru	1,390

Ffynhonnell: Gwefan Ystadegau Llywodraeth Cymru ar sail data LLWR a HESA .

Mae'r ffigyrau hyn yn dangos gostyngiad yng nghyfanswm y dysgwyr ar gyrsiau Cymraeg ers 2011/12 lle cofnodwyd 18,050 o ddysgwyr ar gyrsiau.

Yn ôl y ffigurau manwl diweddaraf sydd ar gael (2011/12) mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mynychu cyrsiau Mynediad neu Cyn/Mynediad - 8,020 o'r 18,050 (44%) ac mae hyn yn gostwng i 1,565 (8%) ar gyrsiau uwch. Nid oes modd defnyddio'r data ar hyn o bryd i dracio dysgwyr er mwyn mesur dilyniant o un lefel i'r llall ac mae hwn yn amlwg yn ddiffyg wrth geisio mesur cynnydd. Pan ddatrysir pa fath o ddata y dylid ei gasglu, gellid creu targedau cenedlaethol ar gyfer agweddau fel dilyniant.

Mae mwy o ferched (68.8%) na dynion (31.2%) yn dysgu'r iaith ac mae'n amrywio o ran oedran a rhyw ac o ran eu cymhelliant i ddysgu. Mae'r niferoedd yng ngrwpiau oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac yn eithaf cyfartal.

Mae'r ffigurau ar gyfer 2011/12 yn nodweddiadol o sefyllfa'r blynyddoedd blaenorol o ran dosbarthiad oedran dysgwyr.

Dan 19	20-29	30-39	40-49	50-59	60 a throsodd	Dim gwybodaeth	Cyfanswm
595	2610	3800	3795	3015	3985	250	18050

O ran cymhelliant, dengys ymchwil amrywiol ar hyd y blynyddoedd fod tri phrif reswm dros ddysgu Cymraeg - er mwyn ei defnyddio gyda'r teulu, er mwyn ei defnyddio yn y gweithle neu oherwydd teimlad o hunaniaeth Gymreig a pherthyn i gymuned.

Yng Ngwynedd, Conwy a Chaerdydd y ceir y rhan fwyaf o ddysgwyr gyda Gwynedd ar y blaen gyda 3.6% o'r boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ddysgwyr, sef un dysgwr ar gyfer pob 26 person sy'n siarad Cymraeg. Mae amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r system addysg yn gymhelliant pendant.

Effaith y ddarpariaeth

Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i effaith y ddarpariaeth. Mae'r canolfannau'n disgrifio canlyniadau yn nhermau dysgwyr sy'n cyrraedd cyrsiau lefel uwch ac roedd targed penodol i'r perwyl gan Lywodraeth Cymru - **'mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith i lefel canolradd ac uwch'**. Ond lleiafrif sydd ar y lefelau hyn. Serch hynny gall un ganolfan adrodd fod 42% o'u dysgwyr ar lefelau canolradd, uwch a

hyfedredd; mewn canolfan arall roedd tua 24% ac mewn un arall roedd y garfan honno'n nes at 10%. Mewn un ganolfan ceir 3% o'i dysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch ac roedd y ganran honno wedi aros yn weddol gyson dros bedair blynedd. Ceir tipyn o anghysondeb ac amrywiaeth yn nifer y garfan hon ar draws Cymru a bydd angen canfod beth sy'n achosi hyn.

O ran mesur effaith yn gyffredinol y tu allan i'r maes ei hun nid oes llawer o dystiolaeth. Gofynnwyd un cwestiwn perthnasol o ran yr Arolwg Defnydd Iaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg am ddefnydd siaradwyr o'r Gymraeg. Nododd y mwyafrif eu bod wedi dysgu'r Gymraeg naill ai yn y cartref neu drwy'r system addysg, gyda chanran fechan yn nodi eu bod wedi dysgu drwy ddull arall gan gynnwys dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae gwaith pellach i'w wneud ar hyn.

Staffio

Mae natur gweithlu sy'n cyflwyno cyrsiau Cymraeg i Oedolion wedi derbyn cryn sylw o ran ymgais i broffesiynoli'r maes. Anogir y Canolfannau i gyflwyno targedau am y nifer o'r tiwtoriaid sy'n llwyddo yn y Cymhwyster i Diwtoriaid. Serch hynny, mae data am y gweithlu yn anghyflawn ac nid oes darlun clir yn genedlaethol o bwy sy'n cael eu cyflogi i gyflwyno neu gefnogi cyrsiau. Adeg ysgrifennu 'Codi Golygon' roedd 587 o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn gweithio i'r Canolfannau neu i'r is-ddarparwyr drwy Gymru. Mae canran uchel o'r tiwtoriaid yn gweithio llai na 6 awr yr wythnos a chwarter ohonynt dros 60 oed.

Atodiad 2

Llywodraethiant

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac er mwyn sefydlu a rhedeg cwmni cyfyngedig dan warant penodwyd **Bwrdd Cyfarwyddwyr**.

33

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Y Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n sicrhau rheolaeth ariannol drylwyr, briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson.

Aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yw yr Hybarch Randolph Thomas, Maria Stedman, Eifion Griffiths a Dr Haydn E Edwards.

Mae gan y Ganolfan hefyd **Fwrdd Ymgynghorol** sydd wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol o dan yr Erthyglau Cymdeithasu yw sicrhau bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol:

- ▲ yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y maes dysgu Cymraeg i Oedolion drwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr;
- ▲ yn cyflenwi gwasanaethau i'r maes yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru;
- ▲ yn cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Ymgynghorol yw cynghori'r Ganolfan ar:

- ▲ gyflawni ei hamcanion strategol o ran y maes dysgu Cymraeg i Oedolion drwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr;
- ▲ cyflenwi gwasanaethau i'r maes yn unol â'r weledigaeth a blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i Lywodraeth Cymru;
- ▲ cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes;
- ▲ ail-gyflunio'r ddarpariaeth;
- ▲ gwella ansawdd y ddarpariaeth;
- ▲ denu mwy o bobl i ddysgu'r Gymraeg;

- ▲ mynnu perfformiad o'r safon uchaf bosibl gan ddarparwyr;
- ▲ gwella ymagweddau dysgu yn y meysydd blaenoriaeth;
- ▲ cyflwyno cwricwlwm fydd yn sbarduno cynnydd buan ymhlith dysgwyr;
- ▲ cyflwyno dulliau asesu ac achredu hylaw, perthnasol a deniadol;
- ▲ cefnogi dysgwyr y Gymraeg i gymryd rhan mewn gweithgarwch hamdden, diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ▲ creu perthynas iach â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ym maes Cymraeg i Oedolion.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol yw Dr Haydn E Edwards, Nia Parry, Tim Hartley, Merfyn Morgan, Ann Jones, Ann Rhian Hughes, Owain Gruffydd.

Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei archwilio gan **Bwyllgor Craffu** annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Rôl y Pwyllgor yw craffu ar waith y Ganolfan a chynghori'r Llywodraeth ar faterion megis gwerth am arian a sut y mae'r Ganolfan yn ymateb i bolisiâu Llywodraeth Cymru.

Atodiad 3

Strwythur Staffio

Strwythur Staffio

Mae tair cyfarwyddiaeth yn perthyn i'r Ganolfan a chanddynt feysydd penodol ar gyfer datblygu a gwella'r maes dysgu Cymraeg:

- ▲ Cyfarwyddiaeth Systemau: arwain ar agweddau ymarferol megis cyllid, adnoddau dynol, systemau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ar lefel gorfforaethol.
- ▲ Cyfarwyddiaeth Strategol: arwain ar agweddau cwricwlaidd, datblygu gweithlu'r maes ac adnoddau.
- ▲ Cyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu: arwain pob agwedd ar waith marchnata, hyrwyddo a brandio'r Ganolfan.

36

